Pearson
Edexcel

TAG Safon Uwch Pearson Edexcel Lefel 3 mewn Technoleg Cerddoriaeth (9MT0W)

Deunyddiau asesu enghreifftiol (SAMs)

Dalier sylw: i gael hyd i arweiniad cysylltiedig i athrawon, gan gynnwys canllaw marcio, bydd angen i chi gyfeirio at y fersiwn Saesneg o'r SAMs, sydd ar gael ar y wefan ochr yn ochr â'r ddogfen hon (A Level Music Technology Sample Assessment Materials).

Cynnwys

Cyflwyniad	**1**
Elfen 1 – Tasg	**3**
Elfen 1 – Llyfr log a ffurflen ddilysu	**7**
Elfen 2 – Briff	**13**
Elfen 2 – Llyfr log a ffurflen ddilysu	**17**
Elfen 3 – Papur cwestiynau	**25**
Elfen 4 – Papur cwestiynau	**37**

Cyflwyniad

Mae TAG Safon Uwch Pearson Edexcel Lefel 3 mewn Technoleg Cerddoriaeth wedi'i dylunio i'w defnyddio mewn ysgolion a cholegau. Mae'n rhan o gyfres o gymwysterau Lefel TAG a gynigir gan Pearson.

Cafodd y deunyddiau asesu enghreifftiol hyn eu datblygu i gefnogi'r cymhwyster hwn a byddant yn cael eu defnyddio fel y meincnod i ddatblygu'r asesiad y bydd y myfyrwyr yn ei gyflawni.

TAG Pearson Edexcel Lefel 3

Deunyddiau asesu enghreifftiol a addysgwyd yn gyntaf ym mis Medi 2017

Cyfeirnod y papur **9MT0/01W**

Technoleg Cerddoriaeth

Uwch

ELFEN 1: Recordio

Tasg

Nid oes arnoch angen unrhyw ddeunyddiau eraill.

Cyfarwyddiadau i Athrawon

- Ni chaniateir rhyddhau'r dasg hon cyn 1 Mehefin yn y flwyddyn galendr cyn y flwyddyn pan gaiff y cymhwyster ei ddyfarnu.
- Rhaid cyflwyno recordiadau trwy'r platfform cyflwyno ar-lein Learner Work Transfer (LWT), ynghyd â'r llyfr log a'r ffurflen ddilysu.
- Atgoffir y canolfannau bod rhaid cyflwyno cyflwyniad pob ymgeisydd ar wahân, ac wedi'i labelu'n glir â chyfeirnod y papur, rhif y ganolfan, enw a rhif yr ymgeisydd.
- Rhaid i'r canolfannau gadw copïau wrth gefn o holl recordiadau'r ymgeiswyr a ffeiliau meddalwedd perchnogol ar gyfer yr holl dasgau.
- Rhaid anfon yr holl ddeunyddiau asesu at yr arholwr i gyrraedd erbyn 15 Mai.

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

- 60 yw cyfanswm marciau'r elfen hon.
- Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r dasg ar gyfer y recordiad.
- Rhaid i hyd y recordiad fod rhwng 3 a 3½ munud.
- Rhaid i chi ddiwallu'r anghenion o ran offeryniaeth.
- Rhaid i chi recordio un gân o'r rhestr o 10 o ganeuon.

Trowch y dudalen ▶

S78257A

©2023 Pearson Education Ltd.
1/1/1

S 7 8 2 5 7 A

Pearson

Tasg Recordio

Cynhyrchwch gymysgedd stereo o gân o'r rhestr o 10 o ganeuon sy'n diwallu'r anghenion offerynnol a restrir isod.

Rhaid i'ch recordiad ddangos cymwyseddau o ran cipio sain a defnyddio hafalu (EQ), prosesu dynamig, effeithiau, stereo, cydbwysedd ac asiad.

Rhaid i hyd y recordiad fod rhwng 3–3½ munud.

Rhaid i'ch recordiad ddiwallu'r anghenion offerynnol canlynol:

<table>
<tr><th colspan="2">Anghenion offerynnol</th></tr>
<tr><td>Offerynnau sain gorfodol

Rhaid i chi recordio'r holl offerynnau yn y rhestr hon.

Rhaid chwarae pob un am gyfanswm o 2 funud fan lleiaf.</td><td>Offerynnau sain ychwanegol

Rhaid i chi recordio o leiaf dau offeryn gwahanol o'r rhestr hon.

Rhaid chwarae pob un am gyfanswm o 1 munud fan lleiaf.</td></tr>
<tr><td>Cit drymiau a recordiwyd gan 4 microffon fan lleiaf

Gitâr fas neu fas dwbl

Gitâr drydan

Prif lais

Llais cefndir</td><td>Offeryn alaw acwstig

Gitâr acwstig

Allweddell</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gellir defnyddio enghreifftiau ychwanegol o unrhyw rai o'r offerynnau a restrir uchod yn y recordiad, os yw'n briodol i offeryniaeth y gân a ddewiswyd, e.e. rhan gitâr a/neu allweddell ychwanegol.

Ni chaniateir cynnwys offerynnau taro ychwanegol heb draw (gan gynnwys offerynnau taro electronig) yn y recordiad.

Gallwch gipio offerynnau allweddell gan ddefnyddio microffonau, mewnbwn uniongyrchol (DI), neu offerynnau rhithiol ategol (plug-in). Nid yw'n dderbyniol defnyddio offerynnau rhithiol ategol yn lle unrhyw un o'r offerynnau eraill. Mae hyn yn cynnwys meddalwedd amnewid drymiau a meddalwedd chwarae offeryn rhithiol arall.</td></tr>
</table>

Rhestr o ddeg o ganeuon **Rhaid** i chi ddewis **un gân** o'r rhestr ganlynol
Pink – *Who Knew* Beyonce – *If I Were A Boy* Stereophonics – *Could You Be the One* No Doubt – *Don't Speak* R.E.M. – *Losing My Religion* David Bowie – *Modern Love* Bruno Mars – *Locked Out of Heaven* Evanescence – *Going Under* Rolling Stones – *(I can't get no) Satisfaction* PJ Harvey – *Good Fortune*

Os yw'r gân a ddewiswyd yn hirach na 3½ munud, dylech ei graddoli neu ei gorffen o fewn yr amserlen a roddwyd trwy hepgor, er enghraifft, pennill, cytgan neu wythbar canol.

Rhaid i chi:

- sicrhau nad yw'r recordiad yn cynnwys unrhyw ystumiant a sŵn
- defnyddio technegau cynhyrchu cyfoes ar gyfer stereo
- defnyddio hafalu (EQ) sy'n adlewyrchu safonau eglurder cyfoes.

Gallwch ddefnyddio unrhyw rai o'r technegau canlynol fel sy'n briodol:

- ychwanegiadau/troseinio
- tracio dwbl
- crynhoi perfformiadau cyflawn o nifer o gynigion
- dilyniannu offerynnau rhithiol neu recordiad byw i gipio allweddellau
- golygu amseru neu draw.

Gallwch:

- atgynhyrchu'r offerynnau fel y cânt eu perfformio ar yr ysgogiad gwreiddiol neu addasu'r perfformiadau i gydweddu â'r offerynnau a ddewiswyd gennych
- addasu'r gân i raddoli neu orffen ar ôl 3 a chyn 3½ munud.

Ni chaniateir defnyddio technegau dolennu i adeiladu traciau o ddarnau byr o sain neu MIDI. Fodd bynnag, mae'n dderbyniol cywiro camgymeriadau perfformio o dro i dro gan ddefnyddio darnau byr o sain o ran arall o'r gân.

Rhaid i chi fod yr unig berson sy'n rheoli'r broses recordio o'r cam cipio sain i'r cam cymysgu i lawr. Ni chaniateir i'r ymgeiswyr rannu ffeiliau sain ymysg ei gilydd.

Rhaid i chi gyflwyno'ch recordiad yn ddigidol yn y fformat a nodir yn y canllaw cymorth gweinyddol, a geir ar wefan Pearson.

TAG Pearson Edexcel Lefel 3

Deunyddiau asesu enghreifftiol a addysgwyd yn gyntaf ym mis Medi 2017

Cyfeirnod y papur **9MT0/01W**

Technoleg Cerddoriaeth

Uwch

ELFEN 1: Recordio

Llyfr log a ffurflen ddilysu

Nid oes arnoch angen unrhyw ddeunyddiau eraill.

Cyfarwyddiadau i Athrawon

- Rhaid cwblhau'r llyfr log a'r ffurflen ddilysu a'u cyflwyno i'w hasesu ynghyd â'r recordiad.
- Atgoffir y canolfannau bod rhaid cyflwyno'r recordiadau trwy'r platfform cyflwyno ar-lein LWT.
- Rhaid i'r canolfannau gadw copïau wrth gefn o holl recordiadau'r ymgeiswyr a ffeiliau meddalwedd perchnogol ar gyfer yr holl dasgau.
- Rhaid anfon yr holl ddeunyddiau asesu at yr arholwr i gyrraedd erbyn 15 Mai.

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

- 60 yw cyfanswm marciau'r elfen hon.
- Defnyddiwch inc neu feiro **du**.
- Atebwch yr adrannau yn y lleoedd gwag a ddarperir *– efallai bydd mwy o le gwag nag y bydd arnoch ei angen.*
- Mae'r adrannau yn y llyfryn hwn yn gofyn i chi am wybodaeth sy'n hanfodol i'r arholwr sy'n asesu eich gwaith.
- Os na fyddwch yn cwblhau'r llyfr log a'r ffurflen ddilysu, efallai na fydd eich gwaith yn derbyn y credyd llawn.
- Nid oes angen cyflwyno deunyddiau ychwanegol fel sgrinluniau.

Trowch y dudalen ▶

S78257A

©2023 Pearson Education Ltd.
1/1/1

S 7 8 2 5 7 A

Pearson

Teitl y gân a recordiwyd

Cwblhewch y rhestr offerynnau isod i ddangos yr offerynnau a recordiwyd gennych a'r math o ficroffon, mewnbwn uniongyrchol (DI), neu ddull cipio arall a ddefnyddiwyd.

Rhestr y trac			
Offerynnau sain gorfodol	**Dull cipio**	**Cyfeirnodau amseru'r recordiadau**	**Amser chwarae**
Cit drymiau – pedwar microffon fan lleiaf			
Prif lais			
Llais cefndir			
Gitâr fas neu fas dwbl			
Gitâr drydan			
Offerynnau sain ychwanegol	**Dull cipio**	**Cyfeirnodau amseru'r recordiadau**	**Amser chwarae**
Offeryn alaw acwstig			
Gitâr acwstig			
Allweddell			
Offerynnau eraill	**Dull cipio**	**Cyfeirnodau amseru'r recordiadau**	**Amser chwarae**

Yn y lle gwag a ddarperir, tynnwch lun diagramau wedi'u labelu i ddangos safle eich microffon a'ch dewisiadau o ran microffon. Rhaid i chi gynnwys manylion y safle a'r math o ficroffon ac unrhyw osodiadau microffon addasadwy a ddefnyddiwyd, ar gyfer yr holl offerynnau gorfodol. Cewch ddefnyddio ffotograffau os yw'n well gennych ond rhaid iddynt fod wedi'u hanodi'n glir.

Cwblhewch y ddalen traciau isod i ddangos eich penderfyniadau o ran cymysgedd a phrosesu.

	Trac 1	Trac 2	Trac 3	Trac 4	Trac 5	Trac 6	Trac 7	Trac 8
Offeryn/ Llais								
Hafalu (EQ)								
Effeithiau								
Prosesu dynamig								
Panio (Ch–Dd)	◯	◯	◯	◯	◯	◯	◯	◯
Lefel								

	Trac 9	Trac 10	Trac 11	Trac 12	Trac 13	Trac 14	Trac 15	Trac 16
Offeryn/ Llais								
Hafalu (EQ)								
Effeithiau								
Prosesu dynamig								
Panio (Ch–Dd)	○	○	○	○	○	○	○	○
Lefel								

	Trac 17	Trac 18	Trac 19	Trac 20	Trac 21	Trac 22	Trac 23	Trac 24
Offeryn/ Llais								
Hafalu (EQ)								
Effeithiau								
Prosesu dynamig								
Panio (Ch–Dd)	○	○	○	○	○	○	○	○
Lefel								

TAG Pearson Edexcel Lefel 3

Deunyddiau asesu enghreifftiol a addysgwyd yn gyntaf ym mis Medi 2017

Cyfeirnod y papur **9MT0/02W**

Technoleg Cerddoriaeth

Uwch

ELFEN 2: Cyfansoddiad ar sail technoleg

Briff

Nid oes arnoch angen unrhyw ddeunyddiau eraill.

Cyfarwyddiadau i Athrawon

- Ni chaniateir rhyddhau'r briff hwn cyn 1 Medi yn y flwyddyn galendr cyn y flwyddyn pan gaiff y cymhwyster ei ddyfarnu.
- Rhaid cyflwyno recordiadau o'r cyfansoddiadau ar sail technoleg trwy'r platfform cyflwyno ar-lein LWT, ynghyd â'r llyfr log a'r ffurflen ddilysu.
- Atgoffir y canolfannau bod rhaid cyflwyno cyflwyniad pob ymgeisydd ar wahân, ac wedi'i labelu'n glir â chyfeirnod y papur, rhif y ganolfan, enw a rhif yr ymgeisydd.
- Rhaid i'r canolfannau gadw copïau wrth gefn o'r holl gyfansoddiadau ar sail technoleg a ffeiliau meddalwedd perchnogol ar gyfer yr holl dasgau.
- Rhaid anfon yr holl ddeunyddiau asesu at yr arholwr i gyrraedd erbyn 15 Mai.

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

- 60 yw cyfanswm marciau'r elfen hon.
- Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r dasg ar gyfer y cyfansoddiad ar sail technoleg.
- Rhaid i hyd y cyfansoddiad ar sail technoleg fod yn 3 munud.
- Rhaid i chi gyflawni'r gofyniad o ran nifer y rhannau lleisiol, offerynnol, ac ar sail sampl.

Trowch y dudalen ▶

S78258A

©2023 Pearson Education Ltd.
1/1/

S 7 8 2 5 8 A

Cyfansoddiad ar sail technoleg

Crëwch gyfansoddiad ar sail **un** o'r tri briff a ddarparwyd.

Rhaid i'r cyfansoddiad ar sail technoleg gynnwys o leiaf **chwe** rhan ar wahân, rhai lleisiol, offerynnol ac ar sail sampl.

Rhaid i chi ddefnyddio'r dulliau dylunio sain canlynol i greu eich rhannau offerynnol:

- synthesis
- samplu/trin (*manipulate*) sain
- effeithiau creadigol
- awtomeiddio a rheolaeth amser real.

Hefyd, gallwch ddefnyddio unrhyw gyfuniad o:

- offerynnau rhithiol a reolir gan MIDI
- sain a recordiwyd yn fyw.

Rhaid trin (*manipulate*) samplau a lwpiau er mwyn ennill credyd.

Rhaid i'ch llyfr log nodi manylion y dyluniad sain gwreiddiol a wnaethoch gan ddefnyddio synthesis, samplu ac effeithiau creadigol. Dylid nodi unrhyw samplau rydych wedi eu defnyddio yn eich llyfr log ynghyd â manylion unrhyw brosesu, a ffynhonnell y samplau (a ydynt wedi dod o set fasnachol neu a ydynt wedi'u hunan-recordio).

Rhaid i chi gynhyrchu recordiad stereo ansawdd da o'ch cyfansoddiad ar sail technoleg sy'n rhoi sylw i holl agweddau cynhyrchu – cipio, cydbwysedd, asiad, hafalu (EQ), dynameg, maes stereo ac effeithiau.

Rhaid i chi gyflwyno eich recordiad yn ddigidol yn y fformat a nodir yn y canllaw cymorth gweinyddol, a geir ar wefan Pearson.

Briff cyfansoddiad ar sail technoleg 1

Bob

Cawsoch eich comisiynu i greu'r gerddoriaeth ar gyfer y fideo hwn. Dylai eich cyfansoddiad ar sail technoleg adlewyrchu gweithredoedd, emosiynau a chyflymder y ffilm, a bod wedi'i amseru i gyd-fynd yn gywir â'r golygfeydd a'r delweddau. Rhaid i chi ddefnyddio'r ffeil *movie* ar wefan Edexcel ac nid unrhyw fersiwn arall:

Ni chaniateir i chi ddefnyddio trac sain Foley na deialog.

Ni chaniateir i chi samplu sain o unrhyw fersiwn o'r ffilm.

Rhaid i hyd eich cyfansoddiad fod yn 3 munud.

(dolen i wefan Pearson yma)

Briff cyfansoddiad ar sail technoleg 2

Y Gath a Gerddodd ar ei Phen ei Hun

Crëwch gyfansoddiad ar sail y darn o'r stori *Y Gath a Gerddodd ar ei Phen ei Hun* gan Rudyard Kipling.

Rhaid i'r gerddoriaeth adlewyrchu ystyr y testun. Gall eich cyfansoddiad fod yn gân (rhaid i'r gân gynnwys lleisiau a recordiwyd sy'n defnyddio'r testun), neu'n ddarn o gerddoriaeth gyfoes yn defnyddio samplau sain o ddarnau o'r testun a recordiwyd. Gallwch addasu neu ail-drefnu'r geiriau.

Rhaid i hyd eich cyfansoddiad fod yn 3 munud.

Y Gath a Gerddodd ar ei Phen ei Hun gan Rudyard Kipling

Chwarddodd y Wraig gan ddweud, 'Peth Gwyllt o'r Goedwig Wyllt, cer yn ôl i'r Goedwig eto, gan i mi blethu fy ngwallt a rhoi'r asgwrn-lafn hud i gadw, ac nid oes arnom angen na ffrindiau na gweision yn ein Hogof ni.'

Meddai'r Gath, 'Nid wyf yn ffrind ac nid wyf yn was. Fi yw'r Gath sy'n cerdded ar ei phen ei hun, a dymunaf ddod i mewn i'ch ogof.'

Meddai'r Wraig, 'Felly pam na ddaethost gyda'r Ffrind Cyntaf ar y noson gyntaf?' Digiodd y Gath ac meddai, 'A yw Ci Gwyllt wedi hel straeon amdanaf?'

Yna chwarddodd y Wraig a dywedodd, 'Ti yw'r Gath sy'n Cerdded ar ei Phen ei hun, ac mae pobman yr un fath i ti. Nid wyt yn ffrind nac yn was. Dywedaist hynny dy hun. Cer i ffwrdd a cherdda ar dy ben dy hun ym mhobman fel ei gilydd.'

Dyma'r Gath yn esgus ei bod yn edifarhau ac meddai, 'Felly ni chaf fi fyth ddod i mewn i'r Ogof? Ni chaf fi fyth eistedd yn ymyl y tân cynnes? Ni chaf fi fyth yfed y llaeth gwyn cynnes? Rydych chi'n ddoeth iawn ac yn hardd iawn. Ni ddylech fod yn greulon hyd yn oed wrth Gath.'

Dywedodd y Wraig, 'Gwn fy mod i'n ddoeth, ond wyddwn i ddim fy mod i'n hardd. Felly wnaf i daro bargen â thi. Os dywedaf un gair yn dy ganmol, cei di ddod i mewn i'r Ogof.'

TAG Pearson Edexcel Lefel 3

Deunyddiau asesu enghreifftiol a addysgwyd yn gyntaf ym mis Medi 2017

Cyfeirnod y papur **9MT0/02W**

Technoleg Cerddoriaeth

Uwch

ELFEN 2: Cyfansoddiad ar sail technoleg

Llyfr log a ffurflen ddilysu

Nid oes arnoch angen unrhyw ddeunyddiau eraill.

Cyfarwyddiadau i Athrawon

- Rhaid cwblhau'r llyfr log a'r ffurflen ddilysu a'u cyflwyno i'w hasesu ynghyd â'r cyfansoddiad ar sail technoleg.
- Atgoffir y canolfannau bod rhaid cyflwyno'r cyfansoddiadau ar sail technoleg trwy'r platfform cyflwyno ar-lein LWT.
- Rhaid i'r canolfannau gadw copïau wrth gefn o holl recordiadau'r ymgeiswyr a ffeiliau meddalwedd perchnogol ar gyfer yr holl dasgau.
- Rhaid anfon yr holl ddeunyddiau asesu at yr arholwr i gyrraedd erbyn 15 Mai.

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

- 60 yw cyfanswm marciau'r elfen hon.
- Defnyddiwch inc neu feiro **du**.
- Atebwch yr adrannau yn y lleoedd gwag a ddarperir
  – efallai bydd mwy o le gwag nag y bydd arnoch ei angen.
- Mae'r adrannau yn y llyfryn hwn yn gofyn i chi am wybodaeth sy'n hanfodol i'r arholwr sy'n asesu eich gwaith.
- Os na fyddwch yn cwblhau'r llyfr log a'r ffurflen ddilysu, efallai na fydd eich gwaith yn derbyn y credyd llawn.
- Nid oes angen cyflwyno deunyddiau ychwanegol.

Trowch y dudalen ▶

S78258A

©2023 Pearson Education Ltd.
1/1

S 7 8 2 5 8 A

Pearson

TAG Pearson Edexcel Lefel 3

Deunyddiau asesu enghreifftiol a addysgwyd yn gyntaf ym mis Medi 2017

Cyfeirnod y papur **9MT0/02W**

Technoleg Cerddoriaeth

Uwch

ELFEN 2: Cyfansoddiad ar sail technoleg

Llyfr log a ffurflen ddilysu

Nid oes arnoch angen unrhyw ddeunyddiau eraill.

Cyfarwyddiadau i Athrawon

- Rhaid cwblhau'r llyfr log a'r ffurflen ddilysu a'u cyflwyno i'w hasesu ynghyd â'r cyfansoddiad ar sail technoleg.
- Atgoffir y canolfannau bod rhaid cyflwyno'r cyfansoddiadau ar sail technoleg trwy'r platfform cyflwyno ar-lein LWT.
- Rhaid i'r canolfannau gadw copïau wrth gefn o holl recordiadau'r ymgeiswyr a ffeiliau meddalwedd perchnogol ar gyfer yr holl dasgau.
- Rhaid anfon yr holl ddeunyddiau asesu at yr arholwr i gyrraedd erbyn 15 Mai.

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

- 60 yw cyfanswm marciau'r elfen hon.
- Defnyddiwch inc neu feiro **du**.
- Atebwch yr adrannau yn y lleoedd gwag a ddarperir
  – efallai bydd mwy o le gwag nag y bydd arnoch ei angen.
- Mae'r adrannau yn y llyfryn hwn yn gofyn i chi am wybodaeth sy'n hanfodol i'r arholwr sy'n asesu eich gwaith.
- Os na fyddwch yn cwblhau'r llyfr log a'r ffurflen ddilysu, efallai na fydd eich gwaith yn derbyn y credyd llawn.
- Nid oes angen cyflwyno deunyddiau ychwanegol.

Trowch y dudalen ▶

S78258A

©2023 Pearson Education Ltd.

1/1

S 7 8 2 5 8 A

Pearson

Y Briff a Ddewiswyd	
Teitl eich Cyfansoddiad	

Cwblhewch yr wybodaeth ganlynol ynghylch eich dulliau gweithio.

Gweithfan Sain Ddigidol (DAW)

Defnyddiwch y tablau canlynol i fanylu ynghylch sut rydych chi wedi creu seiniau ar gyfer eich cyfansoddiad ar sail technoleg.

Rhaid i chi hefyd nodi'n glir y gosodiadau a newidiwyd gennych er mwyn i'ch gwaith ennill credyd. Gallwch ddefnyddio diagramau neu sgrinluniau wedi'u labelu i esbonio eich dyluniad sain, ond ni fydd y rhain yn ddigonol i esbonio eich prosesau.

Synthesis	
Ansawdd (*timbre*)/ enw'r offeryn	**dylunio seiniau; trin (*manipulation*) gan ddefnyddio osgiliadur amledd isel (*LFO*), hidlydd, amlenni; awtomeiddio neu reolaeth amser real; torbwynt (*cut-off*) a chyseiniant, ymosod, edwiniad, cynnal, rhyddhau; amlenni mapio**

Samplu	
Ansawdd (*timbre*)/ enw'r offeryn	**defnyddio ffeiliau sain byr i ddatblygu elfennau sonig newydd; creu ystyron neu effaith newydd; cyfradd samplu a dyfnder did; trin (*manipulation*) gan ddefnyddio synthesis**

Effeithiau Creadigol	
Ansawdd (*timbre*)/ enw'r offeryn	**ychwanegu effeithiau neu brosesyddion ar sail amser i addasu seiniau sydd eisoes yn bodoli; rheoli paramedrau craidd a manwl**

Datganiad yr athro/athrawes

Rwyf yn datgan bod y gwaith a gyflwynir i'w asesu wedi cael ei gyflawni heb unrhyw gymorth heblaw am yr hyn sy'n dderbyniol yn ôl rheolau'r fanyleb.

Enw'r athro/ athrawes:			
Llofnod yr athro/ athrawes:		**Dyddiad:**	

Datganiad yr ymgeisydd

Rwyf yn tystio mai fy ngwaith i a gyflwynir ar gyfer yr asesiad hwn. Rwyf wedi cynnwys cyfeiriadau clir at unrhyw ffynonellau a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rwyf yn deall bod datganiad ffug yn fath o gamymddwyn.

Llofnod yr ymgeisydd:		**Dyddiad:**	

Drwy lofnodi'r datganiad uchod rydych yn cytuno i'ch gwaith gael ei ddefnyddio i gynorthwyo â datblygiad proffesiynol, cymorth ar-lein a hyfforddiant i aseswyr canolfannau ac arholwyr Pearson. Os oes gennych unrhyw bryderon, anfonwch neges e-bost at: teachingmusic@pearson.com

Os nad ydych eisiau i'ch gwaith gael ei ddefnyddio gan Pearson i gynorthwyo â hyfforddiant a datblygiad, ticiwch yma ☒ .

Cyflwynwch y ffurflen hon wedi'i chwblhau gyda chyflwyniad y myfyriwr.

Gwiriwch fanylion yr arholiad isod cyn rhoi eich gwybodaeth ymgeisydd

Cyfenw'r Ymgeisydd	Enwau eraill

Rhif y Ganolfan | Rhif Ymgeisydd

TAG Pearson Edexcel Lefel 3

Deunyddiau asesu enghreifftiol a addysgwyd yn gyntaf ym mis Medi 2017

Amser 1 awr 30 munud

Cyfeirnod y papur **9MT0/03W**

Technoleg Cerddoriaeth Uwch

ELFEN 3: Gwrando a dadansoddi

Rhaid i chi fod â:
Recordiad sain
Clustffonau a chwaraeydd sain unigol

Cyfanswm Marciau

Cyfarwyddiadau

- Defnyddiwch inc neu feiro **du**.
- **Llenwch y blychau** ar dop y dudalen hon drwy nodi eich enw, rhif eich canolfan a'ch rhif ymgeisydd.
- Atebwch **bob** cwestiwn.
- Atebwch y cwestiynau yn y lleoedd gwag a ddarperir *– efallai bydd mwy o le gwag nag y bydd arnoch ei angen.*
- Ni chaniateir mynediad i feddalwedd cynhyrchu cerddoriaeth na'r rhyngrwyd.

Gwybodaeth

- 75 yw cyfanswm y marciau ar gyfer y papur hwn.
- Mae'r marciau am **bob** cwestiwn yn cael eu dangos mewn cromfachau *– defnyddiwch hyn fel canllaw ar gyfer faint o amser i'w dreulio ar bob cwestiwn.*

Cyngor

- Darllenwch bob cwestiwn yn ofalus cyn dechrau ei ateb.
- Ceisiwch ateb pob cwestiwn.
- Gwiriwch eich atebion os cewch amser ar y diwedd.

Trowch y dudalen ▶

S78259A

©2023 Pearson Education Ltd.
1/1

S 7 8 2 5 9 A 0 1 1 2

Pearson

ADRAN A

Atebwch BOB cwestiwn. Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag a ddarperir.

Rhaid ateb rhai cwestiynau trwy roi croes mewn blwch ☒. Os ydych yn newid eich meddwl ynghylch ateb, tynnwch linell trwy'r blwch ☒ ac wedyn rhoi croes wrth ymyl eich ateb newydd ☒.

1 Captain Beefheart and his Magic Band: *Observatory Crest*

Trac 1

(a) Nodwch yr offeryn allweddell sy'n chwarae o ddechrau'r gân.

Rhowch groes yn y blwch cywir.

(1)

☒ **A** Clafinet

☒ **B** Melotron

☒ **C** Monosynth

☒ **D** Piano Rhodes

(b) Disgrifiwch y panio a ddefnyddiwyd ar yr organ yn 0:50–0:54.

(1)

.....

(c) Recordiwyd y gân hon ar dâp analog. Nodwch **ddwy** nodwedd o ansawdd y recordiad sy'n ategu'r gosodiad hwn.

(2)

1 .....

2 .....

(d) Mae'r gân hon yn cynnwys nifer o rannau gitâr a chwaraewyd gan yr un cerddor.

Enwch y dechneg recordio a ddefnyddiwyd i gyflawni hyn.

(1)

.....

(e) Nodwch **ddwy** ffordd y gwahaniaethwyd rhwng y rhannau gitâr amrywiol yn y cymysgedd rhwng 1:50 a 2:30.

(2)

1 .....

2 .....

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

(f) Defnyddiwyd oedi ar y drwm gwifrau. Cwblhewch y tabl isod i nodi'r gosodiadau a ddefnyddiwyd.

Rheolaeth	**Gosodiad**
Safle pan	**(1)**
Adborth %	**(1)**
Nodwch hyd yr amser oedi	**(1)**

(Cyfanswm ar gyfer Cwestiwn 1 = 10 o farciau)

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

2 The Beatles: *Tomorrow Never Knows (fersiwn stereo)*

Trac 2

(a) Disgrifiwch y broses ddynamig a gymhwyswyd i'r cit drymiau.

(3)

(b) Cymharwch y gwaith cynhyrchu ar y prif lais rhwng 0:10–0:25 â'r gwaith cynhyrchu ar y prif lais rhwng 1:26–1:56.

(3)

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

(c) Esboniwch sut cafodd technoleg tâp analog ei defnyddio'n greadigol rhwng 0:56–1:25.

(4)

(Cyfanswm ar gyfer Cwestiwn 2 = 10 o farciau)

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

3 Dakota Staton: *A Little You*

Trac 3

(a) Recordiwyd y gân hon gan ddefnyddio technoleg y 1950au. Esboniwch **ddwy** nodwedd a glywir yn y gân hon sy'n cefnogi'r gosodiad hwn.

(4)

1 .....

.....

2 .....

.....

(b) Esboniwch **dair** techneg prosesu y gellid eu cymhwyso yn ystod y broses o greu meistr i roi sain fwy cyfoes i'r gân hon.

(6)

1 .....

.....

2 .....

.....

3 .....

.....

(Cyfanswm ar gyfer Cwestiwn 3 = 10 o farciau)

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

4 Fatboy Slim: *Praise You (Radio Edit)*

Trac 4

(a) Mae Fatboy Slim yn defnyddio cyfarpar samplu caledwedd 12-did â RAM cyfyngedig. Esboniwch dair ffordd mae'r cyfarpar hwn yn cyfrannu at rinweddau sonig y gân hon.

(6)

(b) Yn ogystal â'r fersiwn CD digidol hwn, cafodd y gân hon ei rhyddhau ar finyl. Esboniwch **ddwy** ystyriaeth y byddai'r cynhyrchydd wedi gorfod eu gwneud wrth baratoi'r cymysgedd a'r fersiwn meistr ar gyfer finyl.

(4)

1 .....

2 .....

(Cyfanswm ar gyfer Cwestiwn 4 = 10 o farciau)

CYFANSWM AR GYFER ADRAN A = 40 O FARCIAU

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

ADRAN B

Atebwch Gwestiynau 5 a 6. Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag a ddarperir.

5 Gregory Porter: *Liquid Spirit* Trac 5

Gregory Porter: *Liquid Spirit [20 Syl Remix]* Trac 6

Cymharwch y technegau cynhyrchu a ddefnyddiwyd yn y ddau fersiwn.

(15)

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

(Cyfanswm ar gyfer Cwestiwn 5 = 15 o farciau)

6 Britney Spears: *Oops!… I Did It Again*

Trac 7

Cynhyrchwyd y trac hwn yn 1999. Gwerthuswch yr effaith cafodd technoleg gweithfan sain ddigidol (DAW) ar y cynhyrchiad lleisiol yn y trac hwn, a'r effaith ehangach mae technoleg gweithfan sain ddigidol (DAW) wedi'i chael ar gynhyrchu lleisiol ers 1999.

(20)

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

(Cyfanswm ar gyfer Cwestiwn 6 = 20 o farciau)

CYFANSWM AR GYFER ADRAN B = 35 O FARCIAU
CYFANSWM AR GYFER Y PAPUR = 75 O FARCIAU

Gwiriwch fanylion yr arholiad isod cyn rhoi eich gwybodaeth ymgeisydd

Cyfenw'r Ymgeisydd	Enwau eraill

Rhif y Ganolfan | Rhif Ymgeisydd

TAG Pearson Edexcel Lefel 3

Deunyddiau asesu enghreifftiol a addysgwyd yn gyntaf ym mis Medi 2017

Amser 2 awr 15 munud (a 10 munud i osod i fyny)

Cyfeirnod y papur **9MT0/04W**

Technoleg Cerddoriaeth

Uwch

ELFEN 4: Cynhyrchu a dadansoddi

Rhaid i chi fod â: Recordiad sain yn cynnwys ffeiliau sain elfennol, ffeil fformat sain digidol stereo ar gyfer eich tasgau gorffenedig, clustffonau neu seinyddion monitro, gweithfan cyfrifiadur, meddalwedd cynhyrchu cerddoriaeth, Ffigur 1 ar gyfer Cwestiwn 6 (wedi'i amgáu)

Cyfanswm Marciau

Amser gosod i fyny

- Agorwch brosiect newydd yn eich gweithfan sain ddigidol (DAW) gan ddefnyddio cyfradd sampl 16 bit/44.1kHz.
- Cadwch y prosiect dan yr enw '**comp4_eich rhif ymgeisydd**' (e.e. comp4_1234) yn y ffolder a ddynodwyd gan eich canolfan.
- Gosodwch y metronom i **131 curiad y funud**.
- Mewnforiwch "drums.wav" i drac newydd yn eich gweithfan sain ddigidol (DAW), wedi'i alinio â dechrau bar 1.
- Sicrhewch fod y drymiau'n glywadwy ac yn chwarae mewn amser â'r metronom. Mae'r drymiau'n dechrau yn bar 2.
- Ni chaniateir i chi agor y papur cyn i'r goruchwyliwr roi caniatâd i chi wneud.

Cyfarwyddiadau

- Defnyddiwch inc neu feiro **du**.
- **Llenwch y blychau** ar dop y dudalen hon drwy nodi eich enw, rhif eich canolfan a'ch rhif ymgeisydd.
- Atebwch **bob** cwestiwn.
- Atebwch y cwestiynau yn y lleoedd gwag a ddarperir
  – *efallai bydd mwy o le gwag nag y bydd arnoch ei angen.*
- Cadwch eich ffeiliau sain ar gyfer Cwestiynau 1, 3, 4 a 5 o fewn 2 awr 15 munud yr arholiad.
- Rhaid i chi sicrhau bod darnau clust chwith a de eich clustffonau wedi'u gwisgo'n gywir.
- Ni chaniateir y defnydd o gyfrifiannell neu feddalwedd cyfrifiannell.
- **Ni** chaniateir mynediad i'r rhyngrwyd neu'r rhwydwaith lleol.

Gwybodaeth

- 105 yw cyfanswm y marciau ar gyfer y papur hwn.
- Mae'r marciau am **bob** cwestiwn yn cael eu dangos mewn cromfachau
  – *defnyddiwch hyn fel canllaw ar gyfer faint o amser i'w dreulio ar bob cwestiwn.*

Cyngor

- Darllenwch bob cwestiwn yn ofalus cyn dechrau ei ateb.
- Ceisiwch ateb pob cwestiwn.
- Gwiriwch eich atebion os cewch amser ar y diwedd.

Trowch y dudalen ▶

S78260A

©2023 Pearson Education Ltd.
1/1

S 7 8 2 6 0 A 0 1 1 6

Pearson

TUDALEN WAG

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

ADRAN A

Atebwch BOB cwestiwn. Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag a ddarperir.

Rhaid ateb rhai cwestiynau trwy roi croes mewn blwch ☒. Os ydych yn newid eich meddwl ynghylch ateb, tynnwch linell trwy'r blwch ☒ ac wedyn rhoi croes wrth ymyl eich ateb newydd ☒.

Mae Cwestiwn 1 yn ymwneud â rhan y drymiau.

1 (a) Nodwch y gwerth cwanteiddio a ddefnyddiwyd ym marrau 2–8. Rhowch groes yn y blwch cywir.

(1)

☒ **A** 1/32

☒ **B** 1/16

☒ **C** 1/12

☒ **D** 1/8

(b) Cwblhewch ran y drymiau ym mar 8 ar y golygydd rôl piano isod.

(4)



(c) Mae gan ran y drymiau gyseiniant ymwthiol ym marrau 10–17. Dilëwch y cyseiniant hwn.

(4)

Bownsiwch/allforiwch y rhan ddrymiau orffenedig fel ffeil 16 bit/44.1kHz stereo.wav sengl i'r ffolder ddynodedig ar eich cyfrifiadur.

Enwch y ffeil 'q1_ eich rhif ymgeisydd' (e.e. *q1_1234*).

(Cyfanswm ar gyfer Cwestiwn 1 = 9 o farciau)

Mae Cwestiwn 2 yn ymwneud â rhan rìff y synth.

2 Mewnforiwch "synth riff.wav" i drac newydd yn eich gweithfan sain ddigidol (DAW). Dylid alinio dechrau'r trac sain hwn i ddechrau bar 1. Mae rìff y syntheseiddydd yn dechrau chwarae ar ddechrau bar 2.

(a) Disgrifiwch y plygiad traw ym mar 3.

(2)

(b) Mae oedi stereo ar rìff y synth o far 6. Disgrifiwch y gosodiadau sy'n rhoi lled stereo i'r oedi hwn.

(2)

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

(c) Gwrandewch ar farrau 19–26

(i) Nodwch yr hidlydd a ddefnyddiwyd.

(1)

.....

(ii) Disgrifiwch beth sy'n digwydd i'r amledd torbwynt (*cutoff)* trwy gydol barrau 19–26.

(1)

.....

(iii) Tynnwch lun a labelwch yr hidlydd ar y graff gwag isod.

(5)



(Cyfanswm ar gyfer Cwestiwn 2 = 11 o farciau)

Mae Cwestiwn 3 yn ymwneud â rhan y cordiau.

3 Mewnforiwch y ffeil MIDI "chords.mid" i drac newydd yn eich gweithfan sain ddigidol (DAW). Aliniwch y rhan fel bod y cordiau'n dechrau chwarae ym mar 10.

Mewnforiwch "chords example.wav" i drac newydd yn eich gweithfan sain ddigidol (DAW). Mae'r ffeil hon yn dangos sut y dylai barrau 10–11 y cordiau swnio. Ni ddylech ddefnyddio'r sain hon yn eich cymysgedd terfynol.

(a) Crëwch sain ar y syntheseiddydd sy'n cydweddu ag ansawdd (*timbre*) 'chords example.wav'.

- Sicrhewch fod yr wythfed yn cyd-fynd â'r esiampl.
- Defnyddiwch don lif heb unrhyw effeithiau ychwanegol.
- Sicrhewch fod yr hidlo'n cyd-fynd â'r esiampl.
- Copïwch yr amlen a ddefnyddir yn yr esiampl.

(5)

(b) Cwblhewch y tabl isod i roi cyflymder (*velocity*) pob nodyn yn ail gord bar 26 yn ddegol ac yn ddeuaidd.

Traw	Cyflymder yn ddegol	Cyflymder yn ddeuaidd
D5	98	1100010
F#5	**(1)**	**(1)**
B5	**(1)**	**(1)**

(c) Caiff dau nodyn eu chwarae ym marrau 27–28. Crëwch lithryn llyfn, cynaliedig mewn traw rhwng y ddau nodyn hyn.

(2)

Bownsiwch/allforiwch y rhan cordiau orffenedig fel ffeil 16 bit/44.1kHz stereo.wav sengl yn y ffolder ddynodedig ar eich cyfrifiadur.

Enwch y ffeil 'q3_ eich rhif ymgeisydd' (e.e. *q3_1234*).

(Cyfanswm ar gyfer Cwestiwn 3 = 11 o farciau)

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

Mae Cwestiwn 4 yn ymwneud â'r rhan leisiol.

4 Mewnforiwch "vocal main.wav" i drac newydd yn eich gweithfan sain ddigidol (DAW). Rhan leisiol gyflawn yw'r trac hwn. Sicrhewch fod dechrau'r trac sain hwn wedi'i alinio i ddechrau bar 1.

Mae'r llais yn dechrau yn ystod pedwerydd curiad bar 2.

(a) Nodwch pam mae gât wedi'i gymhwyso i'r rhan leisiol.

(1)

.....

(b) Mae'r graff isod yn dangos y donffurf ym mar 9.

(i) Nodwch **ddwy** nodwedd o'r graff sy'n dangos bod hon yn donffurf leisiol.

(2)

1 .....

2 .....

(ii) Labelwch yr osgled

(1)

(iii) Labelwch y cyfnod

(1)



(iv) Nodwch draw y llais ym mar 9

(1)

.....

(v) 220Hz yw amledd y nodyn A dan C canol. Cyfrifwch amledd y llais ym mar 9. Dangoswch eich gwaith cyfrifo.

(2)

amledd ..... Hz

(c) Recordiwyd y rhan leisiol yn ddigidol gan ddefnyddio cyfradd sampl o 44.1kHz. Esboniwch pam, yn ôl theorem Nyquist, mae'r ansawdd recordio'n ddigonol i recordio'r perfformiad lleisiol hwn.

(4)

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(d) Mae rhywfaint o sŵn ymwthiol ym marrau 21–22 y ffeil "vocal main.wav". Mewnforiwch "vocal clean.wav" i'ch gweithfan sain ddigidol (DAW). Defnyddiwch hwn i dynnu'r sŵn o'r rhan leisiol.

(4)

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

(e) Crëwch drac lleisiol cefndir wedi'i harmoneiddio drwy ailddiwnio deunydd a gymerwyd o'r prif lais ym marrau 33–36.

(i) Ailddiwniwch "always" a "forever" i D islaw'r prif lais.

(3)

(ii) Ailddiwniwch "stop" i E islaw'r prif lais.

(3)

(f) Esboniwch sut, ar gyfer y recordiad lleisiol hwn, y byddai'r paramedrau cywasgu'n cael eu gosod er mwyn cadw lefel sain y llais yn gyson yng nghyd-destun y cymysgedd.

(8)

Bownsiwch/allforiwch y rhannau lleisiol gorffenedig fel ffeil 16 bit/44.1kHz stereo.wav sengl i'r ffolder ddynodedig ar eich cyfrifiadur.

Enwch y ffeil 'q4_ eich rhif ymgeisydd' (e.e. *q4_1234*).

(Cyfanswm ar gyfer Cwestiwn 4 = 30 o farciau)

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

5 Erbyn hyn, dylech fod â'r traciau canlynol yn eich gweithfan sain ddigidol (DAW): drymiau, rìff synth, cordiau, prif lais a llais cefndir.

Dilynwch y cyfarwyddiadau isod i gynhyrchu cymysgedd stereo terfynol.

(a) Cywasgwch y prif lais a'r lleisiau cefndir.

- Sicrhewch y gellir clywed holl rannau'r llais uwchben y rhannau eraill.
- Sicrhewch fod dynameg y perfformiad yn wastad trwy gydol y darn ac nad yw'n neidio allan o'r cymysgedd.

(3)

(b) Cymhwyswch hidlydd wedi'i awtomeiddio i'r llais.

- Ni ddylid effeithio ar ddim byd heblaw'r gair "you" a lle caiff ei ailadrodd ym marrau 26–28.
- Defnyddiwch hidlydd pasio amledd uchel â threiglad serth i ffwrdd.
- Awtomeiddiwch yr hidlydd fel bod y llais yn teneuo'n llyfn.

(3)

(c) Cymhwyswch dracio stereo dwbl i'r lleisiau cefndir.

- Dylai'r tracio dwbl gael ei banio'n galed.

(3)

(d) Gwrandewch ar yr effaith ar y rhan leisiol 'ahh' ym marrau 2–5. Ail-grëwch yr un effaith ar yr 'ahh' ym mar 7.

(6)

(e) Cymhwyswch ddatsain ar yr holl rannau er mwyn rhoi ymdeimlad o awyrgylch (*ambience*) ar draws y cymysgedd.

(3)

(f) Cydbwyswch lefelau'r cymysgedd.

(3)

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

(g) Cynhyrchwch gymysgedd stereo terfynol.

- Sicrhewch fod allbwn y cymysgedd ar lefel mor uchel â phosibl.
- Ni ddylai'r cymysgedd gynnwys unrhyw ystumiant.
- Peidiwch â chyfyngu ar neu gywasgu allbwn y cymysgedd.
- Sicrhewch nad yw dechrau'r gerddoriaeth na'r oedi ailadrodd wedi'u torri i ffwrdd.
- Sicrhewch nad yw'r distawrwydd ar y dechrau a'r diwedd yn fwy nag un eiliad.

Bownsiwch/allforiwch y cymysgedd gorffenedig fel ffeil 16 bit/44.1kHz stereo. wav sengl i'r ffolder ddynodedig ar eich cyfrifiadur.

Enwch y ffeil 'q5_ eich rhif ymgeisydd' (e.e. *q5_1234*).

(Cyfanswm ar gyfer Cwestiwn 5 = 24 o farciau)

CYFANSWM AR GYFER ADRAN A = 85 O FARCIAU

PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON
PEIDIWCH AG YSGRIFENNU YN Y FAN HON

ADRAN B

Atebwch Gwestiwn 6. Ysgrifennwch eich ateb yn y lle gwag a ddarperir.

6 Mae Ffigur 1 yn dangos cymysgedd o git drymiau mewn recordiad roc. Bydd y cymysgedd terfynol hefyd yn cynnwys gitâr fas, gitâr drydan wedi'i hystumio a lleisiau.

Gwerthuswch addasrwydd y llwybrau a'r gosodiadau ategion ar gyfer recordiad roc.

(20)

TAG Pearson Edexcel Lefel 3

Deunydd asesu enghreifftiol a addysgwyd yn gyntaf ym mis Medi 2017

Cyfeirnod y papur **9MT0/04W**

Technoleg Cerddoriaeth

Uwch

ELFEN 4: Cynhyrchu a dadansoddi

Ffigur 1 ar gyfer Cwestiwn 6

Peidiwch ag anfon Ffigur 1 yn ôl gyda'r papur cwestiwn.

Trowch y dudalen ▶

S78260A

©2023 Pearson Education Ltd.

1/1

S 7 8 2 6 0 A

Pearson

Hafalu (EQ)	**Mono**	**Mono**	**Mono**	**Mono**	**Mono**	**Stereo**	**Stereo**	**Stereo**
Cywasgu	**Mono**	**Mono**	**Mono**	**Mono**	**Mono**	**Stereo**	**Stereo**	**Stereo**
Datsain								
Aux1 Anfon						0dB +6dB −∞		
Pan	C Ch Dd PAN	C Ch Dd PAN	C Ch Dd PAN	C Ch Dd PAN	C Ch Dd PAN			
Allbwn	Is-grwp Drymiau	Is-grwp Drymiau	Is-grwp Drymiau	Is-grwp Drymiau	Is-grwp Drymiau	Allbwn Ch-Dd	Allbwn Ch-Dd	Is-grwp Drymiau
Graddolydd	0 ∞	0 ∞	0 ∞	0 ∞	0 ∞	0 ∞	0 ∞	0 ∞
	Drwm cicio	Drwm gwifrau top	Drwm gwifrau gwaelod	Uwchben Ch	Uwchben Dd	Aux 1	Allbwn	

Ffigur 1